

Ombwdsmon Ombudsman

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES



Siarad ein hiaith

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol 2020/21

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg

Cynnwys

Safonau'r Gymraeg	1
Adroddiad Blynyddol 2020/21	1
Cynnwys	2
Rhagair	3
Rhan 1	4
Cefndir	4
Ein dyletswyddau o ran y Gymraeg	7
Cyfrifoldebau	7
Sut gwnaethom ni baratoi'r adroddiad hwn	8
Cydymffurfio â'r safonau	8
Rhan 2	9
Uchafbwyntiau'r flwyddyn	10
Safonau cyflenwi gwasanaethau	11
Safonau llunio polisïau.....	14
Safonau Gweithredu	16

Rhagair

“Cenedl heb iaith cenedl heb galon”

Fel siaradwr Cymraeg sy'n wreiddiol o Langefni ar Ynys Môn, rwy'n dal i gael fy ysbrydoli gan yr iaith Gymraeg, angerdd ein diwylliant Cymreig a chryfder ein cymunedau Cymraeg. Felly, rwy'n falch iawn o gyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf ar Safonau'r Gymraeg.

31 Ionawr 2021 oedd y dyddiad pan oedd yn rhaid i ni gydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r Safonau, er bod y gwaith o'u rhoi ar waith wedi dechrau fisoedd lawer yn gynharach, gan ddechrau drwy ymgysylltu'n adeiladol â Chomisiynydd y Gymraeg yn 2019. Mewn blwyddyn mor gythryblus, rwy'n arbennig o falch o ymrwymiad y staff i wneud y newidiadau oedd eu hangen arnom i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gwaith a chan ein defnyddwyr gwasanaeth.

Rwy'n croesawu'r cyfle y mae Safonau'r Gymraeg yn ei roi i wella ein darpariaeth o wasanaethau Cymraeg, felly roeddwn yn falch o weld bod ein hunanasesiad yn dangos lefel galonogol uchel o gydymffurfio. Fodd bynnag, mae ein data yn dangos mai nifer isel iawn o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio ein gwasanaethau o'i gymharu â ffigurau poblogaeth Cymru, felly mae'n bwysig ein bod yn parhau i adeiladu ar y cychwyn cadarnhaol hwn, gan feithrin hyder defnyddwyr ein gwasanaethau wrth ddefnyddio ein gwasanaethau yn Gymraeg yn y dyfodol.

Nick Bennett

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru



Rhan 1

Cefndir

Amdanom Ni

Rydym yn gwasanaethu pobl Cymru mewn tair ffordd wahanol.

Ein swyddogaeth gyntaf yw delio â chwynion ynglŷn â chamweinyddu, methiant yn y gwasanaeth, neu fethiant i ddarparu gwasanaeth gan y rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, fel:



Llywodraeth
Leol



y GIG gan
gynnwys Practisau
Deintyddol a
deintyddion



Landlordiaid
Cymdeithasol
Cofrestredig



Llywodraeth Cymru
a'i chyrrff noddedig

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am ein proses o ddelio â chwynion am gyrrff cyhoeddus yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Ein hail swyddogaeth yw ystyried cwynion bod aelodau etholedig yr awdurdodau lleol wedi torri eu Codau Ymddygiad, a oedd yn gosod yr egwyddorion cydnabyddedig o ymddygiad y dylai aelodau eu dilyn mewn bywyd cyhoeddus. Yn y swyddogaeth hon, gallwn ni ystyried cwynion ynglŷn â:



Cynghorau Sir a
Chynghorau
Bwrdeistref Siriol



Cynghorau Cymuned



Awdurdodau Tân



Parciau
Cenedlaethol

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ein proses o ddelio â chwynion am ymddygiad aelod o awdurdod lleol ar [ein gwefan](#).

Ein trydedd swyddogaeth yw sbarduno gwelliant systemig o'r gwasanaethau cyhoeddus. Yn draddodiadol, rydym wedi gwneud hyn drwy roi cyhoeddusrwydd i'n canfyddiadau, er enghraifft, mewn adroddiad budd y cyhoedd ac adroddiadau thematig, llythyrau blynyddol at gyrrff yn ein hawdurdodaeth a'n coflyfrau.

Fodd bynnag, diwygiwyd y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019. Fel rhan o'r diwygiad, cawsom bwerau newydd i sbarduno gwelliant systemig. Gallwn yn awr ymgymryd ag ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain, os ydym wedi cael cwyn ai peidio. Yn ogystal, gallwn ni osod safonau cwynion ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru a monitro eu perfformiad wrth ddelio â chwynion.

Ein dyletswyddau o ran y Gymraeg

O dan ein Deddf newydd, mae angen inni gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (y Safonau). Croesawn y Gymraeg, ac rydym wedi ymrwmo i nodau'r Safonau a diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg.

Mae Adroddiad Blynyddol cyntaf Safonau'r Gymraeg 2020/21 yn gwerthuso'r ffordd rydym wedi hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan sicrhau nad ydym wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob agwedd ar ein gwaith. Er mai dim ond ar y cyfnod o ddiwedd mis Ionawr 2021 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021 y mae'n rhaid i ni adrodd arno, rydym wedi cynnwys data perfformiad ar gyfer y flwyddyn gyfrifyddu lawn pan oedd hynny'n ymarferol.

Yn ystod 2019/20, fe ymgysylltom â Chomisiynydd y Gymraeg i drafod effaith y dyletswyddau iaith Gymraeg arfaethedig o ran y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau, ar ein gweithrediadau, sut rydym yn llunio'n polisiâu a sut rydym yn cadw cofnodion ar rai o'r safonau. Ym mis Tachwedd 2019, cawsom ein Hysbysiad Cydymffurfio drafft ac anfonom ein hymateb ym mis Mawrth 2020.

O ystyried yr argyfwng cyhoeddus parhaus yn gysylltiedig â Covid-19 a'r heriau o gyflwyno newidiadau pan fod staff yn gweithio gartref, fe wnaethom gytuno â'r Comisiynydd mai 31 Ionawr 2021 oedd y dyddiad cydymffurfio ar gyfer y rhan fwyaf o'r safonau, ac y dylid cydymffurfio â phob un ond un ohonynt erbyn diwedd mis Gorffennaf 2021. Estynnwyd y dyddiad cau ar gyfer cydymffurfio â Safon 100, sy'n ymwneud â derbyn ffurflenni sy'n ymwneud â gwyliau blynyddol, absenoldebau o'r gwaith ac oriau gwaith hyblyg yn Gymraeg, hyd 1 Ebrill 2022, gan fod yn rhaid i ni uwchraddio/newid ein system TG adnoddau dynol er mwyn gwneud hyn.

[Gallwch ddarllen Safonau'r Gymraeg a'n hysbysiad cydymffurfio gyda'n Polisi Iaith Gymraeg ar ein gwefan yma.](#)

Cyfrifoldebau

Ein Tîm Rheoli sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gyfeiriad strategol a llywodraethu'r swyddfa. Mae ein Prif Swyddog Gweithredu a'n Cyfarwyddwr Gwella yn sicrhau bod y rheolwyr gweithredol yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, statudol a chanllawiau ymarfer da mewn perthynas â'r Safonau.

Tîm Gwella Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am y Gymraeg o ddydd i ddydd. Un o'n Swyddogion Ymchwilio a Gwella sy'n gyfrifol am weithredu'r Safonau, ac mae cyfrifoldeb cyffredinol o ddydd i ddydd gan ein Pennaeth Polisi a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant am ddatblygu ac adrodd ar bolisiâu'n gyffredinol. Gellir cysylltu â hwy i drafod yr adroddiad hwn.

Mae'r holl staff yn derbyn gwybodaeth am ein dyletswyddau a'n hymrwymadau o dan y Safonau a'n Polisi Iaith Gymraeg, ac mae disgwyl iddynt gydymffurfio a chyfrannu fel y bo'n berthnasol ac yn briodol.

Sut gwnaethom ni baratoi'r adroddiad hwn

Wrth ddatblygu'r adroddiad hwn, defnyddiwyd canllawiau a chynghor gan Gomisiynydd y Gymraeg a data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru.

Cymeradwywyd yr adroddiad gan ein Tîm Rheoli ar 14 Medi 2021 a bydd ein Panel Cynghori yn craffu arno ym mis Hydref 2021.

Cydymffurfio â'r safonau

Mae'n galonogol fod hunanasesiad diweddar o ddetholiad o safonau cyflenwi gwasanaethau, polisi a gweithredol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg yn dangos fod gennym sicrwydd uchel i ganolig ar gyfer y mwyafrif o'r rhai hynny a aseswyd gennym.

Fe wnaethom nodi gwelliannau y byddwn yn eu gwneud pan fyddwn yn ymgynghori ar ganllawiau a dogfennau polisi sy'n ymwneud ag effaith y rhain ar y Gymraeg. Rydym wedi adolygu ein dull gweithredu ac, mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol ar ddogfennau canllaw yn ogystal ag ar bolisiâu arfaethedig, byddwn yn ystyried yn benodol ac yn gwahodd sylwadau ar yr effaith ar y Gymraeg.

Rydym hefyd yn bwriadu gwella'r dystiolaeth rydym yn ei chasglu ynghylch cyfarfodydd gydag unigolion.

Rydym wedi integreiddio cofnodion a gedwir ar gyfer y Safonau yn ein gweithdrefnau gweithredol ar gyfer cwynion, asesiadau effaith, rheoli polisiâu, recriwtio a hyfforddi. Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion ynghylch ein cydymffurfiaeth â'r Safonau. [Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar ein gwefan am sut y gellir gwneud cwynion am ein cydymffurfiaeth.](#)

Rhan 2

Ein perfformiad yn ystod 2020/21

Uchafbwyntiau'r flwyddyn

Polisi Iaith Gymraeg

Aethom ati i gysoni ein Polisi Iaith Gymraeg â Safonau'r Gymraeg yn 2020



Hyfforddiant Staff

Fe wnaethom gefnogi 8% o'n staff i fynychu cyrsiau Cymraeg, yn 2020/21 gweithrediad o Safonau'r Gymraeg



Dyddiad Cydymffurfio

Mi wnaethom gydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r Safonau erbyn 31 Ionawr 2021



Cwynion

Hyd yma, nid ydym wedi cael unrhyw gwynion am ein cymhwysiad â Safonau'r Gymraeg



Sgiliau Cymraeg

Ar gyfartaledd, mae 23% o'n staff yn rhugl neu mae eu Cymraeg yn dda



Safonau cyflenwi gwasanaethau

Defnyddio ein hadroddiad

Dim ond mewn 1% o'n hachosion yn 2020/21 y nododd defnyddwyr gwasanaethau y byddai'n well ganddynt i ni gysylltu â nhw yn Gymraeg.

Gohebiaeth (Safonau 1-7)

Rydym yn datgan ym mhob neges ebost a throedyn llythyr ein bod yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Rydym yn sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyson drwy gynnwys y datganiad yn ein templedi ebost a gohebiaeth safonol ar ein system rheoli gwaith achos ac unrhyw negeseuon ebost a anfonir o Outlook.

Bydd unrhyw un sy'n ysgrifennu atom yn Gymraeg yn cael ateb yn Gymraeg yn awtomatig.

Rhodddwyd cyfarwyddyd i staff ynghylch sut i wneud eu llofnod ebost ac ymatebion allan o'r swyddfa yn ddwyieithog, ac os ydynt yn gallu cyfathrebu'n ysgrifenedig yn Gymraeg, darparwyd baner iddynt ei chynnwys yn eu llofnod.

Ffôn (Safonau 8-22)

Atebir pob galwad ffôn yn ddwyieithog, gyda'r cyfarchiad Cymraeg yn gyntaf. Mae ein gwasanaeth ateb galwadau awtomataidd hefyd ar gael yn Gymraeg, ac mae gan alwyr yr opsiwn i ddewis siarad Cymraeg. Y Gymraeg yw'r opsiwn cyntaf bob amser.

Yn y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2020 a diwedd mis Mawrth 2021, dewisodd 4% o'r holl alwyr i'n swyddfa yr opsiwn i siarad Cymraeg.

Mae gennym 4 aelod o staff sydd ar gael i ateb y galwadau cychwynnol yn Gymraeg ac maent yn gweithio ar rota i sicrhau eu bod ar gael.

Mae staff wedi cael cyfarwyddyd i newid negeseuon peiriant ateb personol fel eu bod yn ddwyieithog ac wedi cael cyfarwyddiadau a hyfforddiant ar sut i wneud hyn.

Mae 7 aelod arall o staff yn ein tîm gwaith achos yn gallu delio â galwadau sy'n ymwneud â gwaith achos yn Gymraeg. Mae 4 arall, nad yw eu rolau'n ymwneud yn uniongyrchol â gwaith achos, yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg a'i defnyddio yn eu gwaith yn y swyddfa.

Mae swyddog achos sy'n siarad Cymraeg yn cael ei neilltuo i bobl sy'n cysylltu â swyddfa OGCC i wneud cwyn am ddarparwyr gwasanaethau neu gynghorwyr o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 neu Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, neu ddeddfwriaeth olynol, ac sy'n dymuno i'w cwyn gael ei thrin yn Gymraeg, er mwyn iddynt gysylltu'n uniongyrchol ag ef neu

hi. Ar adegau pan fydd pobl yn ffonio rhif uniongyrchol ynghylch cwyn lle nad yw'r person sy'n cael ei ffonio yn siarad Cymraeg, gallwn drosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg i ddelio â'r ymholiad.

Gall pobl sy'n cysylltu â rhifau llinell uniongyrchol ar gyfer ymholiadau eraill, er enghraifft er gwybodaeth am gais am swydd neu dendr, gael eu trosglwyddo i rywun sy'n gallu siarad â nhw yn Gymraeg cyn belled ag y bo rhywun sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol yn gallu darparu'r gwasanaeth sydd ei angen arnynt.

Cyfarfodydd (Safonau 24 - 32)

Lle nad ydym wedi cysylltu ac wedi sefydlu sut y byddai person yn dymuno cynnal cyfarfod, byddwn yn canfod pa iaith yr hoffent ei defnyddio yn y cyfarfod. Fodd bynnag, nid yw ein tystiolaeth ar gyfer hyn mor gadarn ag yr hoffem iddi fod.

Mae pob cyfarfod mwy a drefnir gennym yn cynnwys cyhoeddusrwydd, cyhoeddiadau a phapurau dwyieithog a 'Chymraeg yn gyntaf, ac mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Rydym hefyd yn sicrhau ein bod yn dweud wrth fynychwyr eu bod yn gallu siarad Cymraeg a bod gwasanaeth cyfieithu ar gael. Un enghraifft o hyn yn ddiweddar oedd tri chyfarfod bwrdd seinio a drefnwyd gennym ym mis Mawrth 2021 ar gyfer ein rhanddeiliaid – llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a sefydliadau cynrychioliadol ein defnyddwyr, fel sefydliadau eiriolaeth.

Nid oeddem yn cynnal cyfarfodydd a oedd ar agor i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod adrodd. Nid ydym wedi trefnu unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus ers 31 Ionawr 2021, ond cynhaliwyd digwyddiadau blaenorol yn ddwyieithog bob amser, gyda gwasanaethau cyfieithu ar y pryd, er enghraifft Seminarau Pwerau Newydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 2019.

Cyhoeddusrwydd (Safonau 33–72)

Mae ein gwefan yn gwbl ddwyieithog gan gynnwys rhyngwynebau a dewislenni, gyda dolenni uniongyrchol o'r Saesneg i'r tudalennau Cymraeg cyfatebol.

Y cynnwys Cymraeg sydd bob amser yn ymddangos yn gyntaf yn ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Ar hyn o bryd, mae ein swyddfa ar gau i'r cyhoedd ac ymwelwyr, ond dan amgylchiadau arferol mae gennym y cyfleusterau hyn:

- Mae ein cyfarchiad drws yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- Rydym yn arddangos arwydd yn ein derbynfa sy'n croesawu'r defnydd o'r Gymraeg.
- Mae ein holl staff sy'n siarad Cymraeg yn cael bathodyn sy'n dangos eu bod yn gallu siarad ag ymwelwyr yn Gymraeg.

Mae gennym 6 aelod o staff sy'n derbyn ymwelwyr. Mae 1 person yn gwbl rugl ac yn gallu cyfarch pobl yn Gymraeg. Gall pob aelod arall o staff sy'n gweithio ar ein derbynfa gyfarch pobl yn Gymraeg. Cydnabyddwn fod risg y gall fod adegau na allwn ddarparu gwasanaeth Cymraeg llawn yn y Dderbynfa bob amser, felly mae aelod arall o'r tîm yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg.

Caffael (Safonau 72- 76)

Adolygwyd ein polisi caffael ym mis Tachwedd 2020 ac mae bellach yn nodi'n glir ein bod yn croesawu ceisiadau am dendrau yn Gymraeg ac na fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg.

Ni wnaethom hysbysebu unrhyw dendrau rhwng mis Ionawr 2021 a diwedd mis Mawrth 2021.

Hyrwyddo gwasanaethau (Safonau 77 - 80)

Mae ein gwasanaethau cwynion yn gwbl ddwyieithog. Fe wnaethom hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg ar ddiwrnod Shwmae Su'mae.

Mae ein hyfforddiant Safonau Cwynion yn cael ei gynnig yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Mae un corff cyhoeddus wedi manteisio ar y cynnig o hyfforddiant yn y Gymraeg.

Fe ddiwygion ni ein logo, sydd bellach yn nodi enw ein sefydliad yn Gymraeg yn gyntaf. Mae'r Ombwdsmon, Nick Bennett, yn ddwyieithog a bydd bob amser yn siarad Cymraeg mewn digwyddiadau cyhoeddus neu mewn fideos hyrwyddo.

Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion am ddarpariaeth Gymraeg ein gwasanaethau yn 2020/21.

Safonau llunio polisiau

Polisiau a gweithdrefnau newydd neu ddiwygiedig (Safonau 84– 86)

Cafodd ein [Polisi a'n Gweithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb \(EIA\)](#) eu diwygio ym mis Mawrth 2020. Mae bellach yn cynnwys asesiad o'r effaith ar y Gymraeg a'i nod yw:

- rhagweld neu nodi canlyniadau polisi ar unigolion neu grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth/cyflogeion a'u defnydd o'r Gymraeg;
- sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu dileu neu eu lleihau;
- manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi, mae'r cofnodion o'r camau yr ydym wedi'u cymryd yn cynnwys:

- Mabwysiadu Datganiad Polisi a Gweithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n nodi'r camau rydym yn eu cymryd fel sefydliad wrth gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer gwahanol elfennau a chamau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan gynnwys yr effaith ar y Gymraeg.
- Mabwysiadu [Polisi Iaith Gymraeg](#) sy'n nodi disgwyliadau'r Ombwdsmon o ran cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi
- Defnyddir tystiolaeth i asesu a yw'n debygol y bydd effaith ar y Gymraeg. Rydym wedi datblygu pecyn cyfeirio tystiolaeth cydraddoldeb sy'n cynnwys tystiolaeth am y Gymraeg.
- Os canfyddir effaith, yna aser natur a graddfa'r effaith honno – os yw'n negyddol, yn gadarnhaol, yn isel, yn ganolig neu'n uchel. Mae camau gweithredu arfaethedig i liniaru'r effaith negyddol/gwneud y mwyaf o'r effaith gadarnhaol hefyd yn cael eu nodi.
- Penodwyd Swyddog Rheoli Polisi sy'n sicrhau bod Polisi a Gweithdrefn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gyfredol a bod y polisi hwnnw'n cael ei weithredu a'i adolygu a'i effaith yn cael ei fonitro.
- Defnyddio ein Grŵp Cydraddoldeb mewnol i ddarparu cyngor a chymorth i berchnogion polisi sy'n datblygu polisi newydd neu'n adolygu polisi presennol ar faterion cydraddoldeb gan gynnwys y Gymraeg
- Sefydlu cronfa ddata Rheoli Polisi sy'n tynnu sylw at statws yr holl bolisiau, Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, cyfieithu i'r Gymraeg a dyddiadau adolygu.
- Cafodd yr holl aelodau staff a oedd yn gyfrifol am adolygu polisiau a gweithdrefnau hyfforddiant ar y weithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ym mis Hydref 2020. Wrth gaffael y gwasanaeth hwn, gwnaethom sicrhau bod gan ein darparwr brofiad a gallu i fynd i'r afael yn ddigonol â gofynion y Gymraeg.

Cynhaliwyd 19 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bolisiau yn 2020/21, ac ni nodwyd effaith negyddol ar y Gymraeg yn unrhyw un ohonynt.

Ymgynghoriadau (Safonau 87 - 89)

Buom yn ymgynghori ar [ein hymchwiliad ar Liwt ein Hunain ar Ddigartrefedd](#) ym mis Medi 2020. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn ynghylch sut y byddai'r penderfyniad i fwrw ymlaen â'r ymchwiliad yn effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Ym mis Chwefror 2021, fe wnaethom ymgynghori ar y [Canllawiau drafft ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cyngorau Sir a Chymuned/Tref](#). Nid oedd dogfen ymgynghori ffurfiol gyda chwestiynau penodol, ond cyhoeddwyd dogfennau cyfarwyddyd drafft dwyieithog ar ein gwefan, a gofynnwyd am sylwadau. Nid oeddem yn gofyn yn benodol am farn ar yr effaith ar y Gymraeg.

Er nad oedd y canllawiau hyn yn ddogfen bolisi fel y cyfryw, rydym wedi adolygu ein dull gweithredu ac mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol ar ddogfennau canllaw yn ogystal ag ar bolisiâu arfaethedig, byddwn yn ystyried yn benodol ac yn gwahodd sylwadau ar yr effaith ar y Gymraeg.

Comisiynu ymchwil (Safonau 91-93)

Nid ydym wedi comisiynu nac wedi cynnal unrhyw ymchwil er mwyn gwneud penderfyniad polisi ers 31 Ionawr 2021.

Safonau Gweithredu

Polisi ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn fewnol (Safon 94)

Yn 2020, fe wnaethom ddatblygu [Polisi Iaith Gymraeg](#) newydd, yn unol â'n dyletswyddau o dan y Safonau. Mae'r polisi'n cynnwys adran sy'n egluro ein dull o ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Mae ar gael ar Yr Hwb/ Hub (ein mewnwyd) ac ar ein gwefan gyhoeddus.

Dogfennau cyflogaeth (Safon 95 - 100)

Y llynedd, fe wnaethom gynnal arolwg o'r holl staff i ofyn a fyddent yn hoffi cael **unrhyw** ohebiaeth a dogfennau sy'n ymwneud â chyflogaeth, hyfforddiant, amcanion perfformiad neu gynllunio gyrfa yn Gymraeg.

Roedd canlyniadau'r arolwg yn dweud y pethau canlynol wrthym:

- Roedd 8 o bobl yn dymuno cael gohebiaeth bapur yn ymwneud â'u cyflogaeth yn Gymraeg
- Roedd 7 yn dymuno derbyn dogfennau sy'n amlinellu eu hanghenion neu eu gofynion hyfforddi yn Gymraeg
- Roedd 5 yn dymuno cael dogfennau sy'n amlinellu eu hamcanion perfformiad yn Gymraeg
- Roedd 6 yn dymuno derbyn unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi eu cynllun gyrfa yn Gymraeg

Gofynnir i ymgeiswyr am swyddi yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn y ffurflen gais a fyddent yn hoffi cael dogfennau yn ymwneud â'r posibilrwydd o gyflogaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Nid oes raid i ni gydymffurfio â Safon 100 (absenoldeb blynyddol/absenoldebau o'r gwaith yn ddwyieithog) tan 01/04/2022 gan fod rhaid diweddarau'n systemau TG i wneud hyn.

Polisiau cyflogaeth (101 - 107)

Mae ein holl [bolisiau adnoddau dynol](#) sy'n ymwneud ag ymddygiad, iechyd a diogelwch, buddion y gweithle, rheoli perfformiad, absenoldeb, amodau gwaith a phatrymau gwaith ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan a'n safle mewnwyd.

Gweithdrefnau cwynion staff a disgyblu staff (Safon 108 - 115)

Gellir ymgymryd â'n trefniadau [cwyno](#) a [disgyblu](#) yn Gymraeg. Nid ydym wedi cael unrhyw gwynion gan staff yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

Technoleg i hwyluso defnydd staff o'r Gymraeg (Safon 116 - 122)


Mae gan staff fynediad at feddalwedd cyfrifiadurol i wirio sillafu a gramadeg Cymraeg, ac mae manylion ynghylch sut i ddefnyddio rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer y rhaglenni rydym yn eu defnyddio, lle maent ar gael.

Mae tudalen hafan ein mewnrwyd ar gael yn Gymraeg neu'n Saesneg, a gall staff osod eu tudalen hafan i'r naill iaith neu'r llall, yn dibynnu ar eu dewis. Mae cynnwys yn ddwyieithog lle nodir hynny yn y Safonau, ac rydym yn gweithio i gynyddu cynnwys dwyieithog.

Rydym wedi creu lle newydd ar ein mewnrwyd yn benodol ar gyfer gwybodaeth ac adnoddau i hyrwyddo defnydd ein staff o'r Gymraeg, sydd hefyd yn cynnwys dolen i'n gwasanaethau cyfieithu, cyfleoedd hyfforddi a dogfennau cyfeirio yn y Gymraeg.

Sgiliau Gymraeg y staff (Safon 123)

Tan eleni, roeddem yn monitro sgiliau iaith Gymraeg ein staff drwy arolwg cydraddoldeb dienw. Eleni, symudom i system newydd sy'n cysylltu gwybodaeth am gydraddoldeb â chofnodion staff. Mae'r wybodaeth hon yn dal yn gyfrinachol, a dim ond ein Rheolwr Busnes Adnoddau Dynol sy'n gallu cael gafael arni. Gallwn allosod gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg ein staff.



Er ein bod yn cadw'r data hwn, ac wedi'i ddadansoddi, oherwydd y nifer fach o staff ar lefelau penodol neu mewn rhai timau, nid yw'n ymarferol i ni rannu data sy'n ymwneud â siaradwyr Cymraeg ar raddfeydd gwahanol neu mewn timau gwahanol heb y perygl o ddatgelu pwy yw'r unigolion a datgelu data personol.

Cefnogaeth hyfforddi a chyfathrebu (Safonau 124 - 131)

Mae'r holl ddeunydd cynefino ar gael yn Gymraeg ond, hyd yma, ni fu unrhyw alwad i'w gyflwyno yn Gymraeg. Mae modd cwblhau'r hyfforddiant iechyd a diogelwch IHASCO rydyn ni'n ei gael mewn amrywiaeth o ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg.

Er ei bod yn anodd cael gafael ar hyfforddiant arbenigol yn Gymraeg, os gofynnir amdano, rydym yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i unrhyw un sy'n dymuno ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant yn y Gymraeg.

Mae pandemig Covid wedi effeithio ar faint o hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu. Fodd bynnag, yn ystod 2020/21 / neu ar hyn o bryd rydym/roeddem yn cefnogi 6 aelod o staff i ddysgu Cymraeg. Bydd hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael ei drefnu yn ystod 2021/22.

Recriwtio (Safon 132 - 136)

Asesir yr angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi newydd yn seiliedig ar anghenion corfforaethol y sefydliad ac mewn trafodaeth gyda rheolwyr llinell.

Mae ein ffurflenni cais yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg a dewis iaith bob ymgeisydd am bob swydd, gan gynnwys dewisiadau ar gyfer gohebiaeth a chyfweliadau.

Arwyddion (Safon 138—139)

Gan ein bod yn rhentu ein swyddfeydd, nid oes gennym reolaeth dros yr arwyddion allanol parhaol i'n swyddfa. Fodd bynnag, mae pob arwydd dros dro sy'n ymwneud â'n swyddfa yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau.